

# LLEWELYN, MARY PENDRILL, gynt Mary Catherine Rhys (1811 - 1874), cyfieithydd ac awdur

**Enw:** Mary Pendrill Llewelyn

**Dyddiad geni:** 1811

**Dyddiad marw:** 1874

**Priod:** R. Pendrill Llewelyn

**Rhyw:** Benyw

**Galwedigaeth:** cyfieithydd ac awdur

**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** Ray Looker

Ganwyd hi yn y Bont-faen, Morgannwg, 12 Mawrth 1811. Daeth yn wraig i R. Pendrill Llewelyn, ficer Llangynwyd. Ymddiddorai hi a'i gŵr mewn llenyddiaeth Cymru, ac ymddangosodd rhai o'i phenillion hi yn *The Cambrian* a'r *Merthyr Guardian*. Cyfieithodd gasgliad o emynau Cymraeg, rhai [William Williams](#) (Pantycelyn) gan mwyaf, a chyhoeddwyd hwn yn 1850; dywedir iddi hefyd gyfieithu rhai o faledi [Dafydd Nicholas](#). Bu farw 19 Tachwedd 1874.

## Awdur

Ray Looker

## Ffynonellau

Mrs. Penderel Llewelyn, *Hymns translated from the Welsh* (Llundain 1857)

T. C. Evans, *History of Llangynwyd Parish, with Illustrations* (Llanelly 1887), 188

*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908)

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 254, 256, 257

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Mary Catherine Pendrill Llewelyn](#)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18529229](#)

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

